

# ADDYSG GYMRAEG

Y GORAU O DDAU FYD

# ENSINO MINISTRADO EM GALÊS

O MELHOR DE DOIS MUNDOS

Mwy o wybodaeth  
TU MEWN!

Saiba mais  
DENTRO!




wrexham  
COUNTY BOROUGH COUNCIL  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
wrecsam

**Oeddech chi'n gwybod?**

**Sabia que?**

**Mae 77% o ddisgyblion sy'n cael addysg Gymraeg yn Wrecsam yn dod o gartrefi di-Gymraeg.**

**77% dos alunos das escolas em que o ensino é ministrado em galês em Wrexham provêm de famílias que não falam galês.**



# Mynd i'r afael â phryderon rhieni Responder às preocupações comuns dos pais



**"Sut alla i helpu â gwaith cartref fy mhlentynos dydw i ddim yn siarad Cymraeg?"**

Mae ysgolion Cymraeg yn darparu cyfarwyddiadau gwaith cartref yn y Gymraeg a'r Saesneg, felly byddwch yn gwybod yn union beth yw gofynion y gwaith. Bydd pob ysgol unigol yn fodlon cynnig cyngor ar addysg. Mae gwefan [hwb.wales.gov.uk](http://hwb.wales.gov.uk) yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau ac adnoddau dysgu digidol.



**"Como posso ajudar a minha criança com os trabalhos de casa, se não falo galês?"**

As escolas em que o ensino é ministrado em galês oferecem instruções relativas aos trabalhos de casa em galês e inglês para que não haja problemas em compreender o que é pedido à sua criança para fazer. A própria escola oferece conselhos educacionais. [hwb.wales.gov.uk](http://hwb.wales.gov.uk). O HWB oferece acesso a uma gama de ferramentas e recursos de aprendizagem digital.

**"Bydd y plant yn drysu a bydd safon eu Saesneg yn dioddef"**

Ar gyfartaledd mae plant dwyieithog yn llwyddo i ennill canlyniadau uwch yn y Saesneg.

Wrth i'r plentyn esbonio eu gwaith cartref yn y Saesneg i'w rhieni, mae'n atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth y plentyn.



**"As crianças ficarão confusas e o seu inglês sofrerá"**

Em média, as crianças bilingues obtêm resultados mais elevados na língua inglesa.


Também reforça o conhecimento e a compreensão da criança quando explicam aos pais em inglês o que estão a fazer.

## Oes 'na weithgareddau / digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r ysgol?

Mae 'na sawl mudiad a chymdeithas yn trefnu digwyddiadau a gweithgareddau dwyieithog ar ôl ysgol. Mae'r manylion llawn i'w gweld ar ddiwedd y llyfryn hwn.

## Há atividades/eventos em língua galesa fora da escola?

Há várias organizações e sociedades que organizam atividades e eventos bilingues após o horário escolar. Todos os detalhes estão disponíveis no final desta brochura.



[Menter Iaith Fflint a Wrecsam](#)

[Urdd Fflint a Wrecsam](#)

[Mudiad Meithrin](#)

[Cymraeg i Blant](#)

[HWB Digwyddiadau Cymraeg /  
Welsh Language Events Hub](#)





Oeddech chi'n gwybod? *Sabia que?*

Mae tua thri chwarter  
o bobl y byd yn siarad  
mwy na dwy iaith

Cerca de três quartos da  
população mundial falam  
dois ou mais idiomas.

SALUT

OLA



ALOHA



Ciao  
你好



こんにちは



# Beth yw'r manteision o fod yn ddwyieithog? Quais são as vantagens de ser bilingue?



## Mantais addysgol...

- Mae plant ddwyieithog yn dueddol o gyflawni'n well yn y cwricwlwm ac yn ystod arholiadau.
- Mae pobl dwyieithog yn tueddu i ymdopi'n well o ran gweithio dan bwysau.
- Mae pobl dwyieithog yn ei gweld hi'n haws dysgu ieithoedd ychwanegol.

## Uma vantagem educativa....

- As crianças bilingues tendem a obter melhores resultados dentro do currículo e tendem a ter melhores resultados nos exames.
- Os falantes bilingues tendem a ter melhores resultados quando trabalham sob pressão.
- As pessoas bilingues têm mais facilidade em aprender outras línguas.



### Cyfeiriadau

Dr Colin Baker  
Awdur cydnabyddedig  
ar ddwyieithrwydd

### Referências

Dr Colin Baker  
Autor de renome  
sobre bilinguismo

## Oeddech chi'n gwybod? Sabia que?

Cymraeg yw un o'r ieithoedd hynaf  
yn Ewrop sy'n dal i gael ei siarad.

O galês é uma das línguas vivas  
mais antigas da Europa.



## Ystyriwch eich gyrfa...

- mae siarad dwy iaith yn cynnig rhagor o gyfleoedd cyflogaeth i chi - bydd gennych chi sgil ychwanegol ar eich CV, sy'n rhoi 'gwerth' a mantais gystadleuol i chi yn nhermau busnes
- ar gyfartaledd, mae pobl ddwyieithog yn ennill 11% o gyflog ychwanegol
- yn dilyn deddfwriaeth ddiweddar, mae angen rhagor o weithluoedd dwyieithog ar gyflogwyr

## Cryfhau eich ymennydd...

- mae siarad mwy nag un iaith yn helpu i leihau'r risg o ddementia yn nes ymlaen mewn bywyd
- mae pobl sy'n siarad dwy iaith yn fwy hyblyg, sensitif a chreadigol oherwydd bod ganddyn nhw mwy nag un gair ar gyfer gwrthrych neu gysyniad
- mae pobl ddwyieithog yn dadansoddi data ac yn aml-dasgio'n well, yn dueddol o berfformio'n well mewn profion IQ, ac yn meddu ar sgiliau gwybyddol gwel

## Considere a sua carreira...

- falar dois idiomas oferece mais oportunidades de emprego - terá uma competência adicional no seu CV que, em termos comerciais, é um "valor acrescentado" e uma vantagem competitiva;
- as pessoas bilingues ganham, em média, mais 11%;
- mais empregadores precisam de mão de obra bilingue no futuro, na sequência da recente legislação

## Estimule o seu cérebro...

- falar mais do que um idioma ajuda a reduzir o risco de demência mais tarde na vida posterior;
- as pessoas que falam dois idiomas são mais flexíveis, sensíveis e criativas, dado que têm mais do que uma palavra para esse objeto e conceito;
- os bilingues são melhores na análise de dados e a fazer múltiplas tarefas, tendem a ter melhores resultados nos testes de QI e têm capacidades cognitivas mais elevadas.



## Y Sefyllfa Gymdeithasol

- mae siarad mwy nag un iaith yn cynnig dewis ehangach o weithgareddau cymdeithasol ac yn ehangu gorfelion.
- Mae'r Gymraeg yn magu perthynas agosach â hanes, treftadaeth a thraddodiadau Cymru. Rydych chi o fewn cyrraedd uniongyrchol o ddywediadau, idiomau, cerddoriaeth, barddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg sy'n cael eu dathlu a'u parchu ledled y byd.
- Mae'r manteision diwylliannol hyn yn sicrhau hunaniaeth gadarn sy'n hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn a gwerth personol.



**Cyfathrebu,  
Cyfathrebu,  
Cyfathrebu.**

mae pobl ddwyieithog yn fw y sensitif wrth gyfathrebu ac yn fwy ymwybodol o anghenion gwrandawyr, yn enwedig wrth newid rhwng un iaith a'r llall.

## A Situação Social

- falar mais do que um idioma oferece uma gama mais vasta de atividades sociais e expande os horizontes;
- cria um relacionamento mais estreito com a história, o património e as tradições do País de Gales. Proporciona acesso direto a ditos galeses, expressões idiomáticas, música, poesia e literatura que são celebrados e respeitados em todo o mundo;
- estes benefícios culturais contribuem para uma forte identidade que aumenta o sentido de pertença e o valor próprio.



**Comunicação,  
Comunicação,  
Comunicação.**

As pessoas bilingues são mais sensíveis quando comunicam e estão mais conscientes das necessidades dos ouvintes, especialmente quando mudam de um idioma para outro.





“

Mae yna dros 16,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn Wrecsam ac mae dros 2000 o blant Wrecsam yn ddwyieithog.

Há mais de 16 000 falantes de galês em Wrexham e mais de 2000 das nossas crianças são bilingues.

”



## Astudiaeth Achos 1 Huw Ap Dewi Coedpoeth

Yn wreiddiol rydw i o ardal Gymraeg iawn ym Mangor lle' roedd Cymraeg yn cael ei defnyddio a'i chlywed ym mhob man. Roedd hi'n gyfrwng y Gymraeg fel eu bod yn cael defnyddio eu Cymraeg tu allan i'r cartref. Rydw i hefyd wedi mynychu ysgol gynradd ac uwchradd Gymraeg fy hun, rwyf wedi gweld manteision yn fy mywyd gwaith oherwydd fy mod yn gallu siarad Cymraeg, ac rydw i eisiau i Alaw a Siôn gael yr un cyfleoedd a ges i.

Mae'r ddau yn mynychu ysgol gynradd Gymraeg ac mae Alaw yn mynd i ysgol uwchradd Gymraeg y flwyddyn nesaf.

Yn y cartref rydw i yn siarad Cymraeg gyda'r plant ond mae fy ngwraig yn tueddu i siarad Saesneg gyda nhw. Mae'n neis gweld fod y plant yn llifo'n hawdd rhwng Cymraeg a Saesneg heb feddwl.




## Estudo De Caso 1 Huw Ap Dewi Coedpoeth

Sou originário de uma área muito galesa em Bangor, onde o galês é usado e ouvido em todo o lado. Era muito importante para mim que os meus filhos, Alaw e Siôn fossem educados numa escola em que o ensino é ministrado em galês, para que pudessem usar o seu galês fora de casa. Tendo também frequentado pessoalmente uma escola primária e secundária numa escola em que o ensino era ministrado em galês, percebi os benefícios na minha vida profissional porque posso falar galês e quero que a Alaw e o Siôn tenham as mesmas oportunidades que eu tive.

Ambos frequentam uma escola em que o ensino é ministrado em galês e a Alaw vai para uma escola secundária em que o ensino é ministrado em galês no próximo ano.

Em casa falo galês com as crianças, mas a minha esposa tende a falar inglês com elas. É bom ver que as crianças fluem facilmente entre o galês e o inglês sem pensar nisso.




## Astudiaeth Achos 2 Heidi Phoenix o Wrecsam

Nid ydw i na thad Dexter yn siarad Cymraeg, ond hyd yn oed cyn cael plant roeddwn yn gwybod y baswn yn anfon fy mhlant i ysgol cyfrwng Cymraeg.

Dwi'n meddwl ei bod yn bwysig iddynt fedru'r Gymraeg ar Saesneg er mwyn eu rhagolygon swyddi yn y dyfodol, a hefyd oherwydd dylai pawb allu siarad iaith eu gwlad eu hunain. Mae gen i gywilydd braidd nad ydw i'n gallu siarad fy iaith fy hun, ond drwy Dexter rhwystr iaith yn effeithio ar addysg Dexter ond mi wnaethon ni'r penderfyniad gorau erioed.

Mae o rŵan fwy neu lai yn rhugl yn 6 oed a dydi o erioed wedi cael unrhyw anawsterau. Mi fyddwn yn bendant yn anfon ei frawd bach i lawr yr un llwybr!



## Estudo De Caso 2 Heidi Phoenix de Wrexham

Nem eu nem o pai do Dexter somos falantes de galês, mas mesmo antes de ter filhos, sabia que enviaria os meus filhos para uma escola em que o ensino fosse ministrado em. Penso que é tão importante para eles ter o galês como o inglês para futuras perspetivas de emprego e poder falar o seu próprio idioma deve ser um dado adquirido.

Algo que considero vergonhoso é não conseguir falar o meu próprio idioma, mas através do Dexter estou a apanhá-lo. Havia a preocupação de que a barreira linguística pudesse afetar a educação de Dexter, mas foi a melhor decisão.

Agora é praticamente fluente aos 6 anos e nunca teve qualquer problema. Iremos sem dúvida enviar o seu irmão mais novo pelo mesmo caminho!



## Astudiaeth Achos 3 Natalie o Wrecsam

"Pan oedden ni'n edrych ar ysgolion i Murran roedden ni'n byw mewn ardal lle'r oedd 'na sawl ysgol.

"Roedd 'na ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg ac ysgolion ffydd. Dwi'n credu'n gryf mewn ymchwilio'n drylwyr i bob dim bob amser, a gan fod fy ngwaith i ar y pryd yn cynnwys gweithio gydag ysgolion mi nes i benderfynu ymweld â nhw i gyd.

"Does yr un o'r ddau ohono' ni'n gallu siarad Cymraeg, ond fel unrhyw rieni, roedden ni eisiau'r gorau i'n plentyn ni. Pan wnaethon ni drafod y syniad o anfon ein merch i ysgol cyfrwng Cymraeg efo'n teulu a'n ffrindiau roedd yr ymateb yn eithaf negyddol.

"Roedd pobl yn gofyn sut fydden ni'n ei helpu hi i wneud ei gwaith cartref ac yn meddwl tybed a fyddai hi dan anfantais gan mai uniaith Saesneg yw ei chartref hi.

"Yn ffodus, mae gen i griw o ffrindiau Cymraeg dwi'n eu nabod ers pan oeddwn yn farddegau a mi nes i ofyn iddyn nhw am gyngor. Roedden nhw i gyd wedi bod drwy'r ysgol fabanod, iau ac uwchradd gyda'i gilydd, ac mi ddywedon nhw fod y siaradwr Cymraeg a'r academydd gorau yn eu grŵp nhw yn dod o gartref di-Gymraeg.....rhywbeth nad oeddwn i erioed wedi ei sylweddoli.

"Dim ond ychydig iawn o help mae Murran ei angen gyda'i gwaith cartref ac mae hi'n aml yn dweud y drefn wrtho' ni am ynganu geiriau'n anghywir! Mae ei gallu naturiol i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, heb fawr ddim help gan ei theulu – wedi cael ei nodi gan lawer o bobl, yn enwedig gan fod ganddi acen Gymraeg gref wrth siarad yr iaith.

"Mae Murran hefyd yn helpu ei brawd bach, sydd bedair blynedd yn iau na hi ac yn y dosbarth meithrin ar hyn o bryd. Mae o'n siarad Cymraeg efo Murran gyda'i eirfa gyfyngedig. Mae hi'n ei annog o ac yn darllen straeon Cymraeg iddo fo amser gwely. Mae'n fendigedig clywed y ddau ohonyn nhw'n siarad Cymraeg efo'i gilydd."



### Estudo De Caso 3 Natalie de Wrexham

"Na altura em que procurámos escolas para a Murran, vivíamos numa zona rodeada por diversas escolas.

"Havia escolas em que o ensino era ministrado em galês, em inglês e religiosas. Fui sempre picuinhas com a investigação e como o meu trabalho na altura envolvia trabalhar com escolas, decidi visitá-las todas.

"Nenhum de nós consegue falar galês, mas como todos os pais, queríamos o melhor para a nossa criança. Quando discutimos a nossa ideia de enviar a nossa filha para uma escola em que o ensino é ministrado em galês com os nossos amigos e família, deparámo-nos com negativismo.

"As pessoas perguntaram-nos como iríamos ajudá-la a fazer os trabalhos de casa e questionaram-se sobre se estaria em desvantagem, uma vez que o seu agregado familiar seria apenas anglófono.

"Felizmente, tinha um grupo de amigos galeses que tinha conhecido quando era adolescente e a quem tinha pedido conselho. Tinham estado juntos na infância, no ensino primário e secundário e disseram-me que o mais forte falante e académico galês do seu grupo de amigos era de uma família de língua inglesa... algo que eu nunca tinha percebido.

"Murran só tem precisado de ajuda limitada com os seus trabalhos de casa e repreende-nos muitas vezes por não pronunciarmos corretamente as palavras! A sua capacidade natural para falar, ler e escrever em galês, com ajuda limitada da família, tem sido notada por muitas pessoas, especialmente porque tem uma pronúncia forte quando fala galês.

"Ela também ajudou o irmão mais novo, que tem menos quatro anos e está neste momento na turma do infantário. Ele agora fala com a Murran em galês com o seu vocabulário limitado. Ela incentiva-o realmente e lê-lhe histórias galesas à hora de deitar. É encantador ouvi-los falar entre si em galês."

# Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg Plano Estratégico do Galês Na Educação



Ym Mwrdeistref Sirol Wreccsam rydym yn ymroddedig i ddarparu addysg o ansawdd da a chydaddoldeb mynediad yn yr iaith genedlaethol a ddewisir. Rydym yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid i godi safonau llythrennedd a rhifedd ymhellach a threchu effaith tlodi ar lwyddiant addysgol.

Fel nodwyd yng Nghynllun y Gymraeg mewn Addysg Wreccsam, byddwn yn gweithio i:

- hyrwyddo dwyieithrwydd er mwyn sicrhau fod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei ddatblygu yn holl ysgolion Wreccsam a bod cyfleoedd gwell i ddefnyddio'r iaith tu allan i'r ysgolion;

- codi safonau llythrennedd, Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith;
- gweithio'n agos gyda'r awdurdodau cyfagos er mwyn darparu ar gyfer disgyblion sy'n newydd neu hwyrdyfydiaid i Addysg Cyfrwng Cymraeg; a
- gweithio mewn partneriaeth gyda'r consortiwm Gogledd Cymru, Coleg Cambria, Ysgol Maes Garmon, Prifysgol Glyndwr a sefydliadau eraill gan gynnwys Mudiad Meithrin, Menter Iaith Fflint a Wreccsam, yr Urdd a Rhieni dros Addysg Gymraeg.

Cysylltiadau ar gyfer Derbyniadau

Ffon: 01978 298991

Ebost: [admissions@wrexham.gov.uk](mailto:admissions@wrexham.gov.uk)

# Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg Plano Estratégico do Galês Na Educação



INo Município de Wrexham estamos empenhados em proporcionar uma educação de boa qualidade e igualdade de acesso na língua nacional de opção.

Trabalhamos em estreita colaboração com uma série de parceiros e partes interessadas para elevar ainda mais os padrões de literacia e numeracia e para combater o impacto da pobreza nos resultados educativos.

Como se afirma no nosso Plano estratégico do galês na educação, Wrexham trabalhará para:

- promover o bilinguismo para que o uso do galês seja desenvolvido em todas as escolas de Wrexham e haja melhores oportunidades de usar a língua fora das escolas;

- elevar os padrões de alfabetização, o galês com primeiro idioma e galês como segundo idioma;
- trabalhar em estreita colaboração com as autoridades vizinhas para tomar providências para os alunos que acabaram de chegar ou que chegam tarde ao ensino ministrado em galês; e
- trabalhar em parceria com o consórcio North Wales, Coleg Cambria, Ysgol Maes Garmon, Prifysgol Glyndwr e outras organizações incluindo Mudiad Meithrin, Menter Iaith Fflint a Wreccsam, o Urdd e Rhieni dros Addysg Gymraeg.

Contactos para as admissões

Telephone: 01978 298991

Email: [admissions@wrexham.gov.uk](mailto:admissions@wrexham.gov.uk)

# Llwybr i'r Gymraeg - Caminho Para o Galês



Grwpiau Cymraeg  
i blant a Ti a Fi  
Grupos de língua  
galesa para crianças e...

Rhieni gyda phlant o dan 2 oed - cyfle i blant a'u rhieni gymdeithasu a dysgu canu a chwarae yn y Gymraeg

Pais com filhos com menos de 2 anos - uma oportunidade de socializar, cantar e brincar em galês

Cylch Meithrin



2 i oed ysgol. Gofal chwarae ac addysg cyn ysgol ynghyd a gofal dydd.

2 até à idade escolar. Tempo de brincar e educação pré-escolar, bem como creches.

Ysgol Gynradd  
Escola Primária

Gofal Dydd  
Cuidados De Dia

Plant 6 wythnos hyd at oed ysgol; 7.30am-6pm; Llun - Gwener

Crianças desde as 6 semanas até à idade escolar; 07h30-18h00; de segunda a sexta-feira





Mae symud o gylch meithrin i ysgol gynradd Gymraeg ac yna i ysgol uwchradd Gymraeg yn gamau naturiol a phwysig er mwyn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith.

Passar de um grupo infantil ou Cylch Meithrin para a escola primária e depois secundária galesa é um passo natural e importante para os alunos continuarem a desenvolver as suas competências linguísticas.

**Addysg Bellach  
Ensino Superior**

**Ysgol Uwchradd  
Escola Secundária**

**Hyfforddiant  
a'r byd gwaith  
Mundo da formação  
e do trabalho**



Os ydych chi eisiau i'ch  
plentyn fod yn rhugl yn  
y Gymraeg a'r Saesneg,  
dewiswch addysg cyfrwng  
Cymraeg!

Se quer que a sua criança seja  
fluyente tanto em galês como  
em inglês, então escolha o  
ensino ministrado em galês!



# Ysgolion / Escolas

Ysgol Bodhfyfryd	Wrecsam	01978 351168
Ysgol Bro Alun	Gwersyllt	01978 269580
Ysgol Bryn Tabor	Coedpoeth	01978 722180
Ysgol Cynddelw	Glyn Ceiriog	01691 718426
Ysgol I.D. Hooson	Rhosllanerchrugog	01978 832950
Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog	Llanarmon Dyffryn Ceiriog	01691 600278
Ysgol Min y Ddol	Cefn Mawr	01978 820903
Ysgol Plas Coch	Wrecsam	01978 311198
Ysgol Morgan Llwyd	Wrecsam	01978 315050
Ysgol Gymraeg Newydd Borrás New Welsh School Borrás		01978 298991



## Hwb y Gymraeg yn y Gweithle



## Língua Galesa para o Trabalho

Mae CAMU yn adnodd ardderchog ar gyfer Wrecsam a'r cyffiniau. Wedi'i leoli ar safle lân, mae'n ganolfan gyda sawl ystafell amlwrpas a'r dechnoleg ddiweddaraf.

Mae Camu'n darparu cyrsiau Cymraeg sydd wedi'i llunio'n arbennig ar gyfer y gweithle mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol sydd eisiau gwella eu gwasanaeth dwyieithog. Yn ogystal â bod yn ganolfan sydd yn cynnal dosbarthiadau a gweithgareddau, mae CAMU hefyd yn gartref i athrawon ymgynghorol yr Iaith Gymraeg ar gyfer Cyngor bwrdeistref Sirol Wrecsam.

O CAMU é um recurso fantástico para Wrexham e áreas circundantes. Localizado no sítio de Yale, é um centro de salas polivalentes com as mais modernas tecnologias.

A Camu oferece um programa de cursos de línguas especificamente concebidos para o local de trabalho em parceria com empregadores locais que queiram melhorar o seu serviço bilingue ao cliente. Para além de ser um local para a realização de aulas e atividades, a CAMU é também a sede dos professores conselheiros de língua galesa da Câmara Municipal do Condado de Wrexham.



### Camu

Ffordd Parc y Gelli  
Wrecsam  
LL12 7AB

0300 30 30 007  
[ymholiadau@cambria.ac.uk](mailto:ymholiadau@cambria.ac.uk)

### Camu

Grove Park Road  
Wrexham  
LL12 7AB

0300 30 30 007  
[enquiries@cambria.ac.uk](mailto:enquiries@cambria.ac.uk)



## Menter iaith Fflint a Wrecsam

Mae 22 Menter iaith ar draws Cymru yn gweithio i gynyddu a chefnogi defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned leol.

Mae pob Menter yn gweithio'n wahanol, yn ôl anghenion penodol eu hardaloedd gan drefnu digwyddiadau yn y gymuned, cynnal gweithgareddau i blant a theuluoedd, ac yn cynnig cymorth i fusnesau a gwasanaethau sydd eisiau defnyddio mwy o'r Gymraeg.

Gall eich Menter iaith leol hefyd eich cyfeirio at wasanaethau Cymraeg, dosbarthiadau dysgu Cymraeg, a gweithgareddau Cymraeg yn lleol.

Cysylltwch â ni i wybod mwy am waith Menter iaith Fflint a Wrecsam:  
Contacte-nos para saber mais sobre o trabalho do Menter iaith Fflint a Wrecsam:

**01352 744 040**

**[gwybod@menterfflintwrecsam.cymru](mailto:gwybod@menterfflintwrecsam.cymru)**

**[www.menterfflintwrecsam.cymru](http://www.menterfflintwrecsam.cymru)**



## Menter iaith Fflint a Wrecsam

Existem 22 Mentraus iaith espalhados pelo País de Gales que trabalham para aumentar e apoiar o uso do galês no âmbito da comunidade local.

Cada Menter trabalha de forma diferente, de acordo com as necessidades específicas das suas áreas, organizando eventos na comunidade, realizando atividades para crianças e famílias e oferecendo apoio a empresas e serviços que queiram utilizar mais o galês.

O seu Menter iaith local pode também indicar-lhe os serviços de língua galesa, as aulas de galês e as atividades galesas locais.



Mudiad gwirfoddol sy'n arbenigo ym maes gofal ac addysg blynyddoedd cynnar yw Mudiad Meithrin. Ein nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ffôn: 01970 639639**  
**[post@meithrin.cymru](mailto:post@meithrin.cymru)**

Mudiad Meithrin é uma organização voluntária e é o principal prestador de cuidados e educação nos primeiros anos do ensino ministrado em galês no sector do voluntariado. O nosso objetivo é dar a cada criança no País de Gales a oportunidade de usufruir de experiências de cuidados e educação nos primeiros anos de vida, através do ensino ministrado em galês.

**Tel: 01970 639639**  
**[post@meithrin.co.uk](mailto:post@meithrin.co.uk)**



Mae Cymraeg i Blant yn cynnig cyngor arbenigol, gwybodaeth a chefnogaeth i ddarparu rieni a rhieni newydd ar fuddion addysg Gymraeg a phwysigrwydd cyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i'r plentyn bach.

Cymraeg para Crianças oferece aconselhamento especializado, informação e apoio a futuros e novos pais sobre as vantagens do bilinguismo precoce e a importância de introduzir o galês numa fase precoce da educação da sua criança.

## Cylch Ti a Fi

Cyfle i rieni neu warchodwyr gwrdd yn rheolaidd i fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu dros baned mewn awyrgylch Gymreig fydd yn helpu datblygiad plant o enedigaeth hyd at oed ysgol.

Os pais e encarregados de educação terão a oportunidade de se reunirem regularmente para se divertirem a brincar com os seus filhos e de socializarem durante enquanto tomam uma chávena de chá, num ambiente informal galês. Ajudará a promover o desenvolvimento das crianças desde o nascimento até à idade escolar.

**Am fwy o fanylion cysylltwch â**

**Para mais informações contacte**

**[helen.jones@meithrin.cymru](mailto:helen.jones@meithrin.cymru)**

Mae Cymraeg i Blant yn cynnig cyngor arbenigol, gwybodaeth a chefnogaeth i ddarpar rieni a rhieni newydd ar fuddion addysg Gymraeg a phwysigrwydd cyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i'r plentyn bach.

Cymraeg para Crianças oferece aconselhamento especializado, informação e apoio a futuros e novos pais sobre as vantagens do bilinguismo precoce e a importância de introduzir o galês numa fase precoce da educação da sua criança.

## Cylch Meithrin

Nod y cylch meithrin yw hyrwyddo addysg a datblygiad plant o ddwy flwydd oed hyd at oed ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.

O objetivo do cylch meithrin é promover a educação e o desenvolvimento de crianças desde os dois anos de idade até à idade escolar através da língua galesa.

**Cysylltwch â'ch Cylch agosaf  
neu swyddog cefnogi'r ardal**

**Contacte o seu Cylch local ou o  
funcionário de apoio para a área**

**[catherine.morris@meithrin.cymru](mailto:catherine.morris@meithrin.cymru)**





Urdd

Mae'r Urdd yn fudiad unigryw ac ers 1922, wedi cyflawni llawer wrth gynnis profiadau Chwaraeon, Celfyddydol, Preswyl, Dyngarol a Gwirfoddoli i fwy na 4 miliwn o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Heddiw mae gan yr Urdd 55,000 o aelodau. Mae hyn wedi eu galluogi i gyfrannu'n gadarnhaol at eu

cymunedau a chymdeithas, ymestyn eu gorwelion a chynyddu eu hunan hyder.

Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o ferched a dynion ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd bydeang y parchir yng Nghymru.

Nod Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuencid Cymru (rhwng 8 a 25 oed) ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.



Urdd

Fundada em 1922 e com um número de membros atual de 55000, a Urdd é uma organização única. Para além de excelentes experiências residenciais, a Urdd oferece oportunidades substanciais nas áreas do desporto e das artes, bem como projetos humanitários e trabalho voluntário. Até

à data, mais de 4 milhões de crianças e jovens têm-se envolvido positivamente com a Urdd. A experiência proporcionada ajudou a alimentar a sua autoconfiança, alargou os seus horizontes e ajudou-os a contribuir positivamente para a sociedade e as suas comunidades.

A Urdd tem incentivado gerações de jovens homens e mulheres a serem encarnações positivas da nossa língua e cultura únicas, a orgulharem-se do seu país e, ao mesmo tempo, a serem cidadãos do mundo com uma visão para o exterior.

O objetivo da Urdd é assegurar que todos os jovens do País de Gales (entre os 8 e os 25 anos) têm a oportunidade, através do ensino ministrado em galês, de se desenvolverem como indivíduos completos e permitir-lhes desempenhar um papel construtivo na comunidade, através do desenvolvimento de competências pessoais e sociais.

### Manylion cyswllt lleol / Contact details

[ffaw@urdd.org](mailto:ffaw@urdd.org)

<https://twitter.com/URDDFFAW>

<https://www.facebook.com/UrddFfaw/>